**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf /Our ref: MA/RE/3742/20

Llŷr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Senedd Cymru,

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Llŷr,

Mae'r llythyr hwn yn cadarnhau fy mwriad i gyhoeddi Trydedd Gyllideb Atodol ar gyfer 2020-21, ac yn eich hysbysu o amseriad y gyllideb i'ch galluogi i gynllunio ar gyfer y gwaith craffu priodol.

Prif ddiben y Drydedd Gyllideb Atodol fydd adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers yr Ail Gyllideb Atodol 2020-21, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref. Bydd yn nodi nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru a throsglwyddiadau gydag adrannau Llywodraeth y DU. Bydd hefyd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Bydd hefyd yn cynnwys diwygiadau i ragolygon trethi datganoledig, yr Addasiad i'r Grant Bloc, cronfeydd a dynnir o Gronfa Wrth Gefn Cymru, a benthyca arfaethedig o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

Rwyf yn bwriadu cyflwyno'r Drydedd Gyllideb Atodol ar gyfer 2020-21 ar 9 Chwefror. Caiff y gyllideb ei chyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar yr un diwrnod.

O gofio'r toriad ym mis Chwefror, rwyf yn bwriadu symud y Cynnig ar gyfer y Drydedd Gyllideb Atodol i 9 Mawrth. Mae hyn yn darparu wythnos arall ar ôl y cyfnod o dair wythnos a nodir yn y Rheolau Sefydlog.

Gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.